

# Papur y Porth

Rhifyn 20 Mai 2026

SLIDESMANIA.COM



# Croeso gan y Pennaeth

Mae wedi bod yn hanner tymor hynod o brysur a chynhyrchiol, gyda'r disgyblion yn mwynhau gweithgareddau garddio, plannu a hau hadau. Rydym yn gyffrous i weld ffrwyth ein gwaith yn dilyn hanner tymor.

Mae hefyd llawer o weithgareddau chwaraeon wedi bod gan gynnwys pêl-droed, criced a rygbi. Rydym yn hynod falch o ymdrech ragorol y disgyblion a'r ffordd y maent yn cynrychioli'r ysgol mewn digwyddiadau chwaraeon.

Gorffennwyd yr hanner tymor gydag Wythnos Ysgolion Eco/Iach wych i hybu ffordd iach o fyw. Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Dymunwn wyliau hanner tymor bendigedig i chi – mae'r tywydd yn edrych yn hyfryd – ac edrychwn ymlaen at eich gweld ar 1af o Fehefin.

SLIDESMANIA.COM



# Welcome from the Headteacher

It has been a very busy and productive half term with pupils enjoying gardening activities, planting and sowing seeds. We can't wait to see the garden flower after half term. There has also been plenty of sporting action, including football, cricket and rugby. We are extremely proud of the pupils' excellent effort and the way they represent the school at sporting events.

We ended the half term with a fantastic Healthy Schools Week to promote positive lifestyles. Thank you for all your support.

Wishing you a wonderful half term break – the weather is looking lovely – and we look forward to seeing you again on 1st June.

SLIDESMANIA.COM

# Swyddogion Diogelu'r Ysgol
# School Safeguarding Officers



## Mrs Angharad Williams
**Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn**
**Designated Safeguarding Officer**



## Mrs Elin Zych
**Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Parc y Tywyn**
**Deputy Designated Safeguarding Officer**

**Os oes gennych unrhyw gonsyrn am ddiogelwch disgybl, cysylltwch â'r staff hyn yn syth.**

**If you have any concerns regarding a pupil's safety, contact these staff immediately.**



**Yn absenoldeb y ddwy uchod, chysylltwch â:**

**If neither of the above are available, please contact:**

## Miss A.Griffiths



**Cadeirydd y Llywodraethwyr â chyfrifoldeb am ddiogelu:**

**Governor with responsibility for safeguarding:** **Mr Mathew Davies**

DaviesM1926@Hwbcymru.net

*Os hoffech wneud cwyn am unrhyw aelod o staff, cysylltwch a'r Pennaeth neu Cadeirydd y Llywodraethwyr.*

If you wish to make a complaint against any member of staff, contact the Headteacher or the Chair of Governors

## Manylion cyswllt defnyddiol / Useful contact details

* Tim Atgyfeirio Canolog Ty Elwyn:
  Central Referral Team: 01554 742322
* E-bost/ E-mail:
  CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk
* Tu allan i Oriau Swyddfa
  Out of Office Hours : : 0300 333 2222

*Uwch Weithiwr Cymdeithasol: Ysgolion
Senior Social Worker: Schools
* Rebecca Thomas: 01554 742369 / 07976466399
* Carmarthenshire Local Safeguarding Children's Board 01267 246544
* NSPCC Helpline – 0800 800 500
* Dyfed Powys Police – 101

## Mae diogelu yn fusnes i bawb!
## Safeguarding is everybody's business!

SLIDESMANIA.COM

# ABSENOLDEBAU / ABSENCES

Yn Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, diogelwch a lles ein disgyblion yw ein blaenoriaeth uchaf. Fel rhan o'n **cyfrifoldebau diogelu**, mae'n hanfodol ein bod yn gwybod lleoliad pob plentyn yn gywir yn ystod tymor yr ysgol.

Hoffwn atgoffa pob rhiant/gofalwr o'r disgwyliadau canlynol yn unol â'n **Polisi Presenoldeb Ysgol**:

- Rhaid i rieni/gofalwyr **roi gwybod i'r ysgol am bob absenoldeb**, gan gynnwys pan fydd plentyn i ffwrdd ar wyliau.
- **Er bod gwyliau yn ystod tymor yr ysgol yn cael eu hannog i'w hosgoi, rhaid dal i lenwi ffurflen absenoldeb fel bod yr ysgol yn gwybod ble mae eich plentyn.**
- Os yw plentyn yn absennol ac nad ydym wedi cael gwybod ble maent, mae gan yr ysgol **ddyletswydd i ddilyn gweithdrefnau diogelu**, a all gynnwys cysylltu ag asiantaethau allanol i sicrhau eu bod yn ddiogel.

Nid mater o bresenoldeb yn unig yw'r gweithdrefnau hyn, ond rhan hanfodol o'n rôl i sicrhau bod pob disgybl yn ddiogel ac wedi'i gyfrif ar bob adeg.

Gofynnwn am eich cydweithrediad llawn wrth roi gwybod i'r ysgol am unryw absenoldebau wedi'u cynllunio neu rhai annisgwyl. Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

At Parc Y Tywyn School, the safety and wellbeing of our pupils is our highest priority. As part of our safeguarding responsibilities, it is essential that we have accurate information about every child's whereabouts during the school term.

We would like to remind all parents/carers of the following expectations in line with our School Attendance Policy:

- Parents/carers must inform the school of all absences, including when a child will be away on holiday.
- Holidays taken during term time are discouraged; however, a leave of absence form must still be completed so that the school is aware of where your child is.
- If a child is absent and we have not been informed of their whereabouts, the school has a duty to follow safeguarding procedures, which may include contacting external agencies to ensure the child is safe.

These procedures are not only about attendance but are a vital part of our role in ensuring that all pupils are safe and accounted for at all times. We ask for your full cooperation in keeping the school informed of any planned or unexpected absences. Thank you for your continued support.

SLIDESMANIA.COM

# Diogelu: Dim Cŵn ar safle'r ysgol
# Safeguarding: No Dogs on school site




Er mwyn diogelwch a lles ein disgyblion, rhieni a staff, **ni chaniateir cŵn ar safle'r ysgol** ar unrwy adeg.

Diolch am eich cydweithrediad wrth helpu i gadw ein hysgol yn le diogel i bawb.

For the safety and wellbeing of our pupils, parents and staff, **dogs are not permitted on the school site** at any time.

Thank you for your cooperation in helping us keep our school a safe environment for all.

SLIDESMANIA.COM

# Presenoldeb / Attendance

Pob disgybl, ar amser, pob dydd.

Every student, on time, every day

**PRESENOLDEB yr Ysgol BODDHAOL**

**93.86%**

**The school ATTENDANCE SATISFACTORY**

| Canran Presen oldeb | Erbyn diwedd y flwyddyn<br>By the end of the year | Canlyniad / Outcome |
|---|---|---|
| 95-100% | Y cyfle gorau o   lwyddiant<br>***Best chance of success*** | Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu.<br>***Your child is taking full advantage of every learning opportunity.*** |
| 90-95% | Colli o leiaf  2 wythnos o ddysgu<br>***At least 2 weeks of learning missed*** | Boddhaol.  Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith.<br>***Satisfactory.  Your child may have to spend time catching up with work.*** |
| 85-90% | Colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu<br>***At least 4 weeks of learning missed*** | Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrth ych i ddal i fyny â gwaith.<br>***Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work.*** |
| 80-85% | Colli o leiaf 5½  wythnos o ddysgu<br>***At least 5 ½  weeks of learning missed*** | Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.<br>***Your child's poor attendance has a significant impact on learning.*** |
| Islaw/ under 80% | Colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu<br>***At least 7½ weeks of learning missed*** | Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys.  Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.<br>***Your child is missing out on a broad and balanced education.*** |

SLIDESMANIA.COM

# Partneriaeth â Hapus Dyrfa



Mae gennym ni newyddion da! Mae ein Clwb ar ôl Ysgol wedi cael adnoddau newydd gwych. Daeth hyn drwy ein partneriaeth â Clwb Tywyn Bach, sy'n cael ei redeg gan Hapus Dyrfa.

Cafodd yr arian ei ddarparu drwy Gynllun Grantiau Bach ECS gan Lywodraeth Cymru, drwy Gyngor Sir Caerfyrddin.

**Mae'r Clwb Ar ôl Ysgol yn rhedeg bob dydd ar ôl ysgol tan 5:20yh.** Beth mae'r adnoddau newydd yn ei olygu i'ch plant chi? Mwy o amrywiaeth, mwy o greadigrwydd, a mwy o ffyrdd i'w cadw'n brysur ac yn hapus ar ôl i'r gloch ganu. Mae adnoddau newydd yn golygu gweithgareddau newydd a chyfleoedd newydd i ddysgu drwy chwarae. Diolch o galon i Clwb Tywyn Bach, Hapus Dyrfa, a Chyngor Sir Caerfyrddin am wneud hyn yn bosibl. Mae'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'r hyn allwn ni ei gynnig i'n plant, a rydym ni'n ddiolchgar iawn.

**Clwb Gwyliau Hapus Dyrfa**

Rydyn ni hefyd yn falch o rannu bod ein ffrindiau yn Hapus Dyrfa yn rhedeg **Clwb Gwyliau dros hanner tymor yr haf a gwyliau'r haf.** Dyma beth sydd ganddyn nhw ar y gweill:

Gofal plant hyblyg sy'n gweithio o'ch cwmpas chi — mae Hapus Dyrfa'n deall nad ydy gwyliau ysgol a gwyliau gwaith bob amser yn cyd-fynd. Mae eu Clwb Gwyliau yma i helpu.

Cadw plant yn egnïol, yn brysur ac yn dysgu drwy'r gwyliau — byddan nhw'n cael hwyl gyda'u ffrindiau tra'n dysgu ar yr un pryd.

Clwb gwyliau newydd sbon ar gyfer plant 4–11 oed — ardal bwrpasol wedi'i chreu'n arbennig ar eu cyfer nhw.

Un trip yr wythnos i fynd allan ac archwilio'r gymuned leol — cyfle gwych i'r plant I brofi pethau newydd a mwynhau'r awyr iach. Os ydych chi angen gofal plant am y gwyliau i gyd neu dim ond ambell ddiwrnod, mae'n werth cysylltu â Hapus Dyrfa.

Mae llefydd yn tueddu i lenwi, felly gorau po gynta! Am fwy o fanylion am y Clwb ar ôl Ysgol neu'r Clwb Gwyliau, dilynwch y ddolen yma:-

https://www.hapusdyrfa.com/services/clwb-tywyn-bach

# Partnership with Hapus Dyrfa





We're pleased to share that our After School Club has received some fantastic new resources.
This has come through our partnership with Clwb Tywyn Bach, run by Hapus Dyrfa, and funded through the ECS Small Grant Schemefrom Welsh Government via Carmarthenshire County Council.

Our After School Club runs every day after school until 5:20pm. What do these new resources mean for your children? More variety, more creativity, and more ways to keep them engaged and happy after the bell rings. New resources mean new activities and new opportunities to learn through play.
A huge thank you to Clwb Tywyn Bach, Hapus Dyrfa, and Carmarthenshire County Council for making this possible. It makes a real difference to what we can offer our children, and we're very grateful.

🌞 Hapus Dyrfa Holiday Club

We're also pleased to share that our friends at Hapus Dyrfa are running a Holiday Club over summer half-term and the summer holidays.
Here's what they have on offer:
**Flexible childcare that works around you** — Hapus Dyrfa understand that school holidays and work leave don't always line up. Their Holiday Club is here to help.
**Keeping children active, engaged and learning through the holidays** — they'll be having fun with their friends while learning at the same time.
**A brand new designated holiday space** for children aged 4–11 — a dedicated area created especially for them.
**One trip a week** to get out and explore the local community — a great opportunity for the children to experience new things and enjoy the fresh air.
Whether you need childcare for the full holidays or just a few days here and there, it's well worth getting in touch with Hapus Dyrfa. Spaces do tend to fill up, so the sooner the better!
For more information on afterschool club and holiday club:-
https://www.hapusdyrfa.com/services/clwb-tywyn-bach

SLIDESMANIA.COM

# Meithrin

Mae plant bach y dosbarth Meithrin wedi bod yn mwynhau eu thema ddiweddar, 'Byw yn y Baw', yn fawr iawn. Maent wedi bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau hwylus ac addysgiadol, gan gynnwys helfa drychfilod yn yr ardal allanol, gweithgareddau mathemategol ar batrymau, chwarae a chreu gyda thoes, ac ymarfer sgiliau marcio yn y baw. Mae'r gweithgareddau hyn wedi rhoi cyfleoedd i'r plant archwilio, dysgu trwy brofiad ymarferol, a datblygu eu sgiliau creadigol a mathemategol mewn ffordd hwylus.











The children in the Nursery class have been enjoying their recent theme, 'Byw yn y Baw', very much. They have been taking part in a variety of enjoyable and educational activities, including an insect hunt in the outside area, mathematical activities on patterns, playing and creating with dough, and practicing their mark making skills. These activities have given the children opportunities to explore, learn through practical experience, and develop their creative and mathematical skills in an enjoyable way.

SLIDESMANIA.COM

# Meithrin / Derbyn

Ein thema y tymor hwn yw *“Byw yn y Baw”*. Mae’r plant wedi mwynhau archwilio byd rhyfeddol y baw a’r pryfed bach yn fawr iawn. Rydym wedi bod yn chwilio am bryfed bach yn yr awyr agored, yn dysgu am eu cynefinoedd ac yn trafod pam mae gwahanol amgylcheddau yn le da iddynt fyw. Mae’r plant wedi didoli pryfed bach yn ôl meini prawf gwahanol megis adenydd/dim adenydd, ymchwilio i flodau a bywyd gwyllt, plannu blodau ac olrhain twf planhigion dros amser. Rydym hefyd wedi datblygu ein sgiliau creadigol a gwaith tîm trwy greu pryfed bach allan o glai ac adeiladu cuddfannau. Mae’r plant wedi dangos llawer o frwdfrydedd wrth ddysgu sut i ofalu am flodau, planhigion a’r bywyd gwyllt o’n cwmpas.













This half term, our Nursery and Reception class theme has been *“Living in the Mud”*. The children have thoroughly enjoyed exploring the wonderful world of mud and minibeasts. We have been searching for minibeasts outdoors, learning about their habitats and discussing why different environments are the best places for them to live. The children have sorted minibeasts using different criteria such as wings/no wings, investigated flowers and wildlife, planted flowers and tracked plant growth over time. We have also developed our creative and teamwork skills through clay minibeast modelling and den building activities. The children have shown great enthusiasm while learning how to care for flowers, plants and the wildlife around us.

SLIDESMANIA.COM

# Derbyn/Blwyddyn 1

Mae plant Derbyn a Blwyddyn 1 wedi mwynhau dechrau ein thema newydd, *"Byw yn y Baw".* Hyd yma, rydym wedi bod yn ymchwilio ac yn darganfod byd natur drwy amrywiaeth o weithgareddau diddorol.
Mae'r plant wedi bod yn chwilio am drychfilod ac yn dysgu mwy am eu cynefinoedd. Rydym hefyd wedi plannu blodau'r haul ac yn edrych ymlaen at eu gweld nhw'n tyfu dros yr wythnosau nesaf. Yn ogystal, mae'r plant wedi mwynhau peintio a gweithgareddau didoli i ddatblygu eu sgiliau creadigol a mathemategol.
Rydym wedi bod yn ffodus iawn gyda'r tywydd, ac wedi manteisio ar bob cyfle i fod tu allan. Mae'r plant wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn yr awyr agored, gan ddysgu ac archwilio mewn ffordd ymarferol a hwylus.
Edrychwn ymlaen at barhau â'n thema ac at fwy o brofiadau cyffrous yn yr wythnosau i ddod















Reception and Year 1 pupils have really enjoyed starting our new theme, *"Living in the Dirt."* So far, we have been exploring and discovering the natural world through a variety of interesting activities.
The children have been searching for minibeasts and learning more about their habitats. We have also planted sunflowers and are looking forward to seeing them grow over the coming weeks. In addition, the children have enjoyed painting and sorting activities to develop their creative and mathematical skills.
We have been very lucky with the weather and have taken every opportunity to be outside. The children have taken part in a variety of outdoor activities, learning and exploring in a practical and enjoyable way.
We look forward to continuing our theme and to more exciting experiences in the weeks ahead!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 1

Mae Blwyddyn 1 wedi cael dechrau gwych i'r hanner tymor gyda'n thema newydd, *Byw yn y Baw*. Mae'r plant wedi mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â chwilod ac wedi dangos brwdfrydedd arbennig ym mhob tasg. Roeddem wrth ein bodd yn gwylio'r lindys yn tyfu'n bili palod ac yn cadw dyddiadur o'u taith...roedd llawer o gyffro wrth eu gweld yn dod allan o'r cocwn! Mae'r dysgwyr hefyd wedi arsylwi'r mwydod yn yr abwydfa ac yn edrych ar sut maent yn symud drwy'r compost. Buom ar helfa chwilod ac yn archwilio eu cynefinoedd, cyn creu byrbrydau chwilod blasus allan o ffrwythau. Edrychwn ymlaen yn awr at ddysgu am blanhigion y tymor nesaf.








Year 1 have had an exciting start to the half term with our new theme, *Byw yn y Baw*! The children have loved taking part in lots of bug-themed activities and have shown incredible enthusiasm throughout. One of the highlights was watching our caterpillars transform into beautiful butterflies while keeping a special diary to record each stage of their journey. There was great excitement in the classroom when the butterflies finally emerged from their cocoons! We have also enjoyed observing the worms in our wormery and discovering how they travel through the compost. Our bug hunts helped us explore the fascinating habitats where minibeasts live, and we even created delicious insect-themed treats using fruit. We are very excited to begin learning all about plants next half term!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 2

Mae wedi bod yn hanner tymor prysur a chyffrous arall ym Mlwyddyn 2! Mae ein dysgu wedi canolbwyntio ar bopeth sy'n ymwneud â bwystfilod bach. Mae'r plant wedi mwynhau archwilio eu hamgylchedd lleol, mynd ar helfeydd bwystfilod bach a darganfod ble mae'r creaduriaid hyn yn byw. Rydym hefyd wedi bod yn dysgu am strwythurau eu cyrff a sut maen nhw wedi addasu i'w cynefinoedd.

Uchafbwynt y tymor oedd adeiladu ein mwydodfa ein hunain. Mae'r plant yn gyffrous iawn i weld sut mae'r mwydod yn ymddwyn a'r hyn maen nhw'n ei wneud o dan y pridd!

Rydym hefyd wedi cymryd gofal mawr wrth ofalu am y planhigion yn ein man dysgu awyr agored, gan eu helpu i dyfu a ffynnu. Mwy o waith ar hyn ar ôl hanner tymor.

I orffen yr hanner tymor ar ei orau, fe wnaethon ni fwynhau taith wych i'r Gerddi Botaneg Cenedlaethol, a ddaeth â'n dysgu yn fyw a rhoi cyfle gwych i'r plant archwilio natur ymhellach.








It has been another busy and exciting half term in Year 2! Our learning has focused on all things minibeasts. The children have enjoyed exploring their local environment, going on minibeast hunts and discovering where these creatures live. We have also been learning about their body structures and how they are adapted to their habitats.

A highlight of the term was building our very own wormery. The children are very excited to observe how the worms behave and what they get up to beneath the soil!

We have also taken great care in looking after the plants in our outdoor learning area, helping them to grow and thrive. More work on this after half term.

To end the half term on a high, we enjoyed a fantastic trip to the National Botanical Gardens, which brought our learning to life and gave the children a wonderful opportunity to explore nature further.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3

Aeth plant Blwyddyn 3 ar ymweliad addysgol i **Benclacwydd** ac fe wnaethon nhw ei fwynhau'n fawr iawn. Roedd y daith yn cysylltu'n berffaith â'n thema **Plymio'r Pwll**, ac roedd y plant wrth eu boddau'n chwilio am bryfed ac infertebratau bach, gan eu didoli yn ôl a oedd ganddynt goesau ai peidio. Yna cafodd y plant gyfle i blymio'r pwll, gan ddefnyddio rhwydi i ddarganfod beth oedd yn byw yn y dŵr, cyn adnabod yr anifeiliaid a ddarganfyddwyd. Ar ben hynny, cawsant lawer o hwyl yn cerdded o gwmpas y gwlyptiroedd ac yn chwarae yn y parc.









Year 3 children went on an educational visit to Penclacwydd and thoroughly enjoyed their experience. The trip linked perfectly to our theme, 'Plymio'r Pwll', and the children had great fun searching for bugs and insects, sorting them into groups depending on whether they had legs or no legs. They then had the chance to do pond dipping, using nets to discover what lived in the pond before identifying the animals they found. They also had lots of fun walking around the wetlands and playing in the park.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3 Mrs Evans




Yn dilyn gwaith thema ar *Blymio'r Pwll*, aeth Blwyddyn 3 ar daith diddorol i Wlyptir Penclacwydd. Cawsom gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau wrth arsylwi ar fywyd gwyllt. Gwnaethom adnabod trychfilod wrth drochi yn y pwll ac aethom ar helfa drychfilod gan eu grwpio. Roedd hi'n braf iawn cerdded o amgylch y parc a darllen am yr holl adar sy'n byw yno. Roedd hi'n ddiwrnod hamddenol ond addysgiadol iawn.





Following our topic work on *Pond Dipping*, Year 3 went on an exciting trip to Llanelli Wetland Centre. We had opportunities to take part in activities while observing wildlife. We identified insects during pond dipping and went on a bug hunt, grouping the different insects we found. It was lovely to walk around the park and read about all the birds that live there. It was a relaxing but a very informative day.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 4

Mae Blwyddyn 4 wedi cael hanner tymor prysur iawn wrth ddechrau ein thema newydd, **'Plymio'r Pwll'**. Rydym wedi ymchwilio i frogaod a'u cylch bywyd, gan ddysgu am yr anifeiliaid sy'n byw mewn pyllau ac yn ymweld â nhw, yn ogystal ag astudio amffibiaid. Cawsom ymweliad cyffrous â Phenclacwydd, lle cafodd y plant gyfle i archwilio'r amgylchedd naturiol a dysgu mwy am fywyd pyllau. Yn ystod ein gweithgareddau creadigol, mae'r disgyblion wedi creu eu pyllau eu hunain ar Minecraft ac wedi peintio pyllau hardd gan ddefnyddio dyfrliwiau.













Year 4 have had a very busy half term starting our new theme, **'Plymio'r Pwll'**. We have researched frogs and their life cycle, learning about the animals that live in and visit ponds, as well as studying amphibians. We also enjoyed an exciting visit to Penclacwydd, where the children had the opportunity to explore the natural environment and learn more about pond life. During our creative activities, the pupils created their own ponds on Minecraft and painted beautiful pond scenes using watercolours. Everyone has thoroughly enjoyed the theme and shown great enthusiasm in their learning.

SLIDESMANIA.COM

# Y Cyngor Eco

Mae'r Cyngor Eco wedi bod yn chwarae rhan bwysig iawn yn her *Camau Bach / Camau Mawr* ar draws yr ysgol. Mae aelodau'r Cyngor wedi ymweld â phob dosbarth bob dydd i gasglu a chofnodi'r data teithio er mwyn i ni allu gweld a dathlu'r canlyniadau ar ddiwedd yr wythnos. Hoffem ddiolch yn fawr i'r holl ddisgyblion, teuluoedd a staff sydd wedi gwneud ymdrech arbennig i wneud newidiadau bach ond pwysig i'w taith i'r ysgol. Boed hynny'n cerdded, sgwtera, beicio neu barcio ymhellach i ffwrdd, mae pob cam yn helpu i greu arferion iachach, ffyrdd mwy diogel ac amgylchedd gwyrddach i'n cymuned.



The Eco Council has been proudly supporting the *Camau Bach / Camau Mawr* Walk to School Challenge across the school. Members of the Council have been visiting each classroom every day to collect and record travel data so that we can celebrate the results together at the end of the week. We would like to say a huge thank you to all pupils, families, and staff who have made a special effort to make small but important changes to their journeys to school. Whether walking, scooting, cycling, or parking further away, every action helps to create healthier habits, safer roads, and a greener future for everyone in our community.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 5

Mae Blwyddyn 5 wedi cael tymor prysur iawn yn gweithio ar ein thema **Newid Hinsawdd**! Er mwyn helpu'r amgylchedd, bu'r plant yn helpu Mrs Morris yn yr ardd,paratoi salad ffrwythau blasus ac yn herio eu hunain i gerdded i'r ysgol.

Year 5 have had a very busy term working on our Climate Change theme! To help the environment, the children have been helping Mrs Morris in the garden, preparing delicious fruit salads, and challenging themselves to walk to school.









SLIDESMANIA.COM




# Blwyddyn 6






Llongyfarchiadau mawr i Flwyddyn 6 am arddangos sgiliau marchnata yn Farchnad Llanelli ac am lwyddo i gyrraedd copa Pen y Fan.

Huge congratulations to Year 6 for showcasing their marketing skills at Llanelli Market and successfully and conquering Pen y Fan.






SLIDESMANIA.COM

# Chwaraeon



Dyma’r twrnameintiau rydym wedi mynd iddynt dros yr hanner tymor diwethaf: criced, pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd. Llwyddiant mawr - da iawn bawb!

These are the tournaments we have been to over the last half term: cricket, football, rugby and netball. A great success well done everyone!













# Chwaraeon



Aeth plant o Flynyddoedd 3-6 i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth Traws Gwlad Ysgolion Llanelli yn ystod yr hanner tymor yma. Da iawn i bob un ohonoch, a llongyfarchiadau i'r rhai a aeth drwodd i'r rownd nesaf, sef cystadleuaeth Ysgolion Sir Gaerfyrddin.

Children from Years 3–6 went to represent the school in the Llanelli Schools Cross Country competition during this half term. Well done to each and every one of you, and congratulations to those who have progressed to the next round, which is the Carmarthenshire Schools competition .









# Chwaraeon



Mae Ffrindiau Ffitrwydd Blwyddyn 5 wedi bod yn brysur yn ystod wythnos Eco/Iach yn cynnal gweithgareddau ffitrwydd gyda'r Cyfnod Sylfaen.

Year 5 have been busy during Eco/Healthy Week leading fitness activities with the Foundation Phase.

















SLIDESMANIA.COM



SLIDESMANIA.COM